| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIADD** |
| **DYDDIAD** | **11 Medi 2012** |
| **PWNC** | **Cefnogaeth i aelodau – sylwadau aelodau** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno sylwadau y mae'r Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ei dderbyn gan gyd-aelodau am gefnogaeth i aelodau.** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dewi Owen**<br>**Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |

1.1 Cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw sicrhau fod y gefnogaeth a gynnigir yn addas i'r holl aelodau.

1.2 Yn fy rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyrrais lythyr at fy nghyd-aelodau ar yr 11eg o Orffennaf, yn nodi

- Prif rôl y Pwyllgor hwn
- Y gefnogaeth gyfredol sydd ar gael
- Yr angen i ddatblygu ym maes cyfathrebu ag aelodau a rhannu gwybodaeth

1.3 Fel rhan o'r llythyr gofynnais hefyd i'm cyd-aelodau gysylltu â mi os oedd materion y dymunech i mi a'r Pwyllgor eu hystyried a cheisio eu datrys ar eu rhan. (Mae copi o'r llythyr ynghlwm yn Atodiad A)

1.4 Prin fu'r ymateb ysgrifenedig a dderbyniais ond byddaf yn adrodd ar lafar yn y cyfarfod ar y sylwadau a dderbyniais.

1.5 Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Vera Jones, wedi derbyn sylwadau am y gefnogaeth a dderbynir, ac mae'r meysydd sydd wedi dod i'w sylw hyd yma fel a ganlyn:

- Technoleg Gwybodaeth – materion a rhwystrau technegol, materion amserlen a materion o ran egwyddorion
- Trefniadau costau teithio, wedi eu datrys bellach
- Hyfforddiant a cheisiadau am arian i fynychu cyrsiau

Atodiad A

Annwyl Gyd-Gynghorydd

Mae rhai wythnosau wedi pasio bellach ers yr etholiad a'r is-etholiad, ac felly mae'n amserol i mi gysylltu â chi yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i esbonio rôl y Pwyllgor i bawb.

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn bwyllgor newydd ar gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. Prif rôl y Pwyllgor hwn yw:

- Penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – gwnaethpwyd hyn yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 29ain o Fai, 2012. Mr Geraint George, Pennaeth Adran Strategol a Gwella sydd wedi ei benodi i'r rôl.
- Adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill fydd ar gael i'r aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfalwni gofynion y swydd
- Llunio adroddiadau i'w cyflwyno i'r cyngor llawn ar yr uchod

Mae'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael yn gyfredol er mwyn cynorthwyo aelodau etholedig i gyflawni eu rolau yn cynnwys:-

<u>Cefnogaeth i holl aelodau (gweinyddol, ymarferol a datblygol)</u>

- Cefnogaeth weinyddol cyfrinachol i'r grwpiau gwleidyddol,
- Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio
- Hyfforddiant

<u>Cefnogaeth i Aelodau Craffu, ac i amrywiol bwyllgorau eraill</u>

- Cyngor ac arweiniad anibynnol i'r Cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau Craffu
- Gweinyddu, cofnodi a chyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd
- Ymchwiliadau craffu i edrych ar effaith polisiau ar lawr gwlad

<u>Cefnogaeth benodol i'r Cabinet</u>

- Comisiynu blaenoriaethau – sef datblygu ac argymell uchelgais a chynnwys y cynllun strategol
- Cyflawni'r blaenoriaethau, sef yr addewidion yn y cynllun strategol
- Gweinyddu ayyb

Fodd bynnag, mae un maes penodol sydd angen sylw ar fyrder, sef cyfathrebu ag, a rhoi gwybodaeth i aelodau. Mae syniadau yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau fod gwybodaeth glir, a negeseuon amserol yn dod i'r holl aeoldau etholedig. Yn ogystal, mae'n allweddol fod cyfle i aelodau holi a thrafod a chodi materion pwysig iddynt hwy a'u hetholwyr gyda'r Arweinydd Cabinet perthnasol. Mae'n amlwg eisoes bod hyn yn bryder a byddaf yn gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adrodd ar hyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Rwy'n siwr fod gennych chi faterion yr hoffech i mi ac aelodau'r Pwyllgor eu hystyried a cheisio eu datrys ar eich rhan.  Teimlwch yn rhydd i gysylltu â mi neu unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor (gweler rhestr aelodaeth isod) i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder i chi.

Yn gywir.

**Cynghorydd Dewi Owen**
**Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Rhestr Aelodaeth Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Plaid Cymru
Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Dyfrig Jones
Linda Ann Jones
Dilwyn Morgan
Gareth Thomas
Mandy Williams-Davies

Annibynnol
Lesley Day
Tom Ellis
Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

Llais Gwynedd
Endaf Cooke
Anwen Davies
Jason Humphreys

Llafur
Sion Wyn Jones